
Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed

Mae gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed yn dod â chyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel. Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") wedi ymrwmo i sicrhau yr holl bobl sy'n ymwneud â'i waith yn cael eu diogelu a bod eu hawliau'n cael eu gwarchod bob amser. Mae diogelwch a llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed o'r pwys mwyaf.

01. DIBEN A CHWMPAS Y POLISI HWN

Diben y polisi hwn yw:

- cymryd y camau sydd o fewn ein rheolaeth i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, yn ystod ymweliadau ag ystâd y Senedd, a phan fydd ein staff yn ymgysylltu â hwy yn y gymuned.
- rhoi i weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr a'r rhai sydd ar brofiad gwaith neu â threfniadau tebyg (y cyfeirir atynt ar y cyd yn y ddogfen hon fel 'staff') yr egwyddorion cyffredinol sy'n arwain ein hymagwedd at ddiogelu.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i staff Comisiwn y Senedd.



Nid yw Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth yn cael eu cyflogi gan Gomisiwn y Senedd. Fodd bynnag, mae'n ddoeth i'r holl Aelodau o'r Senedd a'u Staff Cymorth y mae eu gwaith gyda'r Comisiwn yn dod â hwy i gysylltiad â phlant adlewyrchu'r polisi hwn yn eu mesurau amddiffyn a diogelu plant eu hunain (p'un a oes rhwymedigaeth dan gontract ai peidio).

Yn y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig, mae 'plant' yn cyfeirio at blant hyd at 18 oed ac mae 'oedolion agored i newid' yn cyfeirio at bobl 18 oed neu'n hŷn sy'n cael neu y mae arnynt angen gwasanaethau gofal neu gymorth oherwydd anabledd dysgu neu gorfforol, oed neu salwch ac na all ofalu amdanynt eu hunain, yn erbyn camfanteisio neu niwed.¹

02. FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Lluniwyd y polisi hwn ar sail deddfwriaeth, polisi a chanllawiau sy'n ceisio amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yng Nghymru. Mae'r gyfraith a'r canllawiau statudol yn golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn weithredu i amddiffyn plant. Mae'r Comisiwn yn cydnabod fframweithiau deddfwriaeth a chanllawiau statudol perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys;

- Deddf Plant 1989;
- Deddf Plant 2004;
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;

O dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, diffinnir 'oedolyn sy'n wynebu risg' fel oedolyn:

(a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,

(b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac

(c) nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.



- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

Mae'r Comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989. Mae'r Confensiwn yn sail i bolisi, prosesau penderfyniadau a'r prosesau deddfwriaethol yng Nghymru. Mae'n nodi hawliau sylfaenol plant ac mae'n cynnwys yr hawl i blentyn gael ei amddiffyn rhag pob math o gam-drin, esgeuluso a chamfanteisio.

03. POLISI'AU A GWEITHDREFNAU CYSYLLTIEDIG

Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'n polisiâu a'n gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys;

- Polisi Urddas a Pharch;
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu;
- Cod Ymddygiad Staff;
- Rheolau Diogelwch a Defnyddio TGCh .

Credwn y canlynol:

- ni ddylai plant nac oedolion agored i niwed byth gael unrhyw fath o gamdriniaeth
- mae gennym gyfrifoldeb i hybu llesiant yr holl blant ac oedolion agored i niwed a cheisio eu cadw'n ddiogel a gweithio mewn ffyrdd sy'n eu hamddiffyn.

Rydym yn cydnabod y canlynol:

- llesiant y plentyn neu oedolyn agored i niwed sydd o'r pwys mwyaf;
- mae gan yr holl blant ac oedolion agored i niwed, ni waeth beth am oedran, anabledd, statws aillbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, yr hawl i gael eu hamddiffyn i'r un graddau rhag pob math o niwed neu gamdriniaeth;



- mae rhai plant ac oedolion agored i niwed hefyd yn agored i niwed oherwydd effaith profiadau blaenorol, lefel eu dibyniaeth, anghenion cyfathrebu neu faterion eraill;
- mae gweithio mewn partneriaeth â phlant ac oedolion agored i niwed, eu rhieni, eu gofalwyr ac asiantaethau eraill yn hanfodol wrth hybu eu llesiant.

Rydym yn ceisio cadw plant ac oedolion agored i niwed yn ddiogel drwy:

- eu gwerthfawrogi, gwranddo arnynt a'u parchu;
- penodi Swyddogion Diogelu Dynodedig (SDD). Caiff eu rôl ei nodi'n ddiweddarach yn y ddogfen hon;
- mabwysiadu arfer gorau amddiffyn a diogelu plant drwy ein polisiau, ein gweithdrefnau a'n cod ymddygiad ar gyfer staff;
- datblygu a gweithredu polisi diogelwch ar-lein effeithiol a gweithdrefnau cysylltiedig;
- darparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff drwy oruchwyliaeth, cymorth, hyfforddiant a mesurau sicrhau ansawdd;
- recriwtio staff yn ddiogel, gan sicrhau y cynhelir yr holl wiriadau angenrheidiol (fel y bo'n briodol i'r rôl);
- cofnodi a storio gwybodaeth yn broffesiynol ac yn ddiogel;
- rhannu gwybodaeth am ddiogelu ac arfer da â phlant ac oedolion agored i niwed, eu teuluoedd/gofalwyr a staff drwy daflenni, poster, gwaith grŵp a thrafodaethau un-i-un;
- defnyddio ein gweithdrefnau i rannu pryderon a gwybodaeth berthnasol ag asiantaethau y mae angen iddynt wybod, a chynnwys plant, oedolion agored i niwed, rhieni, teuluoedd a gofalwyr yn briodol;
- defnyddio ein gweithdrefnau i reoli unrhyw honiadau yn erbyn staff yn briodol;
- creu a chynnal amgylchedd gwrth-fwlio a sicrhau bod gennym bolisi a gweithdrefn i'n helpu i ymdrin yn effeithiol ag unrhyw achos o fwlio sy'n codi;



- sicrhau bod gennym fesurau cwyno a chwythu'r chwiban effeithiol;
- sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd ffisegol diogel ar gyfer plant, oedolion agored i niwed a staff, drwy gymhwyso mesurau iechyd a diogelwch yn unol â'r gyfraith a chanllawiau rheoleiddiol.

Terminoleg

At ddibenion y polisi hwn a'r gweithdrefnau, defnyddir y termau a ganlyn:

Diogelu a hybu llesiant plant: Mae hyn yn golygu amddiffyn plant rhag camdriniaeth; atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant; sicrhau y caiff plant eu magu gyda gofal diogel ac effeithiol; a chymryd camau i alluogi plant i gael y canlyniadau gorau.

Amddiffyn plant: Mae hyn yn rhan o ddiogelu a hybu llesiant. Mae'n cyfeirio at y gweithgarwch yr ymgwymerir ag ef i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef, neu sy'n wynebu risg o ddioddef, niwed sylweddol. Gall mathau gwahanol o gam-drin (corfforol, emosiynol, rhywiol neu drwy esgeulustod) fod yn gyfystyr â niwed sylweddol a rhoddir mwy o fanylion am y mathau hyn o gam-drin yn y gweithdrefnau cysylltiedig.

Cam-drin plant: Gall person gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy achosi niwed neu drwy beidio â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu neu mewn sefydliad neu leoliad cymunedol gan bobl sy'n adnabyddus iddynt neu, yn fwy anaml, gan eraill (e.e. rhywun mewn awdurdod neu drwy'r rhyngwyd). Gall plant gael eu cam-drin gan un neu fwy o oedolion neu gan blentyn arall neu blant eraill.

04. SWYDDOGION DIOGELU DYNODEDIG (SDD)

Er bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, yn gyfrifol am ddiogelu, y Swyddogion Diogelu Dynodedig (SDD) yw'r prif bersonél ar gyfer diogelu ac mae ganddynt rôl strategol a gweithredol. Mae'r SDD:



- yn gyfrifol am reoli pryderon diogelu yn y Comisiwn.;
- yn gweithredu fel y cyswllt canolog ar gyfer adrodd pryderon a honiadau diogelu ac ymdrin â hwy;
- yn trafod atgyfeiriadau ac yn cysylltu ag asiantaethau allanol a'r Heddlu;
- yn rhoi cyngor a chanllawiau i staff ar faterion a phryderon diogelu.

Mae enwau a manylion cyswllt yr SDD wedi'u rhestru isod. Dylid cysylltu â hwy yn y drefn y maent yn ymddangos yn y rhestr hon.

SDD cyntaf

Lowri Williams

Pennaeth Adnoddau Dynol



Lowri.Williams2@senedd.cvmru



0300 200 6461

Ail SDD

Gareth Price

Pennaeth Cyfathrebu



Gareth.Price2@senedd.cvmru



0300 200 6330

Trydydd SDD

Siân Wilkins

Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau





Sian.Wilkins@senedd.cymru



0300 200 6380

Pedwerydd SDD

Kathryn Potter

Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil



Kathryn.Potter@senedd.cymru



0300 200 6587

Os nad oes SDD ar gael, neu ar adegau y tu allan i oriau

Y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr

I gysylltu â'r SDD, y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr y tu allan i oriau, ffoniwch y Rheolwr Diogelwch ar Ddyletswydd ar 07800 978 173 a fydd yn cysylltu â'r unigolyn perthnasol ar eich rhan.

Os oes gennych bryderon bod bywyd y plentyn mewn perygl o niwed uniongyrchol

Yr Heddlu



999

Uned Heddlu'r Senedd





0300 200 6561

Oriau swyddfa:

Yn ystod y tymor: Llun, Iau, Gwe, 07:30 - 18:00:

Maw, Mer, 07:00 - 19:00: Sad, Sul, 09:00 - 17:00.

Os nad yw'r SDD, y Prif Weithredwr na'r Cyfarwyddwyr ar gael

NSPCC



0808 800 5000

Gwasanaethau Plant Caerdydd



029 2053 6490 (08:30 - 17:00 Llun - Gwe)



029 2078 8570 (Tîm Cymorth Dyletswydd Brys - Y Tu Allan i Oriau)

Os oes angen rhoi gwybod am achos sy'n ymwneud â phlentyn o awdurdod lleol arall, h.y. nid Caerdydd, dylid cysylltu â gwasanaethau plant neu oedolion yr awdurdod priodol.

NSPCC Childline (gwasanaeth cyngor cyfrinachol i blant a phobl ifanc)



0800 1111

Action on Elder Abuse Cymru



0808 8808 8141

Tîm Diogelu Oedolion Caerdydd





0808 8808 8141



029 2078 8570 (Swyddog ar ddyletswydd frys os yw'r alwad y tu allan i oriau)

Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant flwyddyn ar ôl eu rhoi ar waith ac yna bob dwy flynedd neu'n unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol newydd neu ddigwyddiad neu newid sylweddol.

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn mewn ymgynghoriad ag NSPCC Cymru.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes arnoch angen copi o'r ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r canlynol:



Senedd

Bae Caerdydd



www.senedd.cymru



contact@senedd.cymru <mailto:cysylltu@cynulliad.cymru>



0300 200 6565

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfnewid Testun.

Rydym wedi ymrwmo i adolygu ein polisi a'n harfer da bob dwy flynedd.

Adolygwyd y polisi hwn ddiwethaf ar: (dyddiad)



Llofnod:.....

Dyddiad:

© Hawlfraint y Senedd 2020

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifriol. Mae'n rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Comisiwn a nodi teitl y ddogfen.

